

# Fforest Fawr





# Fforest Fawr

Mae Geoparc y Fforest Fawr wedi'i leoli yn hanner gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n pontio'r trawsnewid rhwng canolbarth Cymru wledig ac amaethyddol a chymoedd diwydiannol de Cymru.

Mae tirweddau amrywiol y Geoparc, gan gynnwys rhostir, dyffrynnoedd, coedwigoedd, llynnoedd, rhaeadrau ac ogofâu, yn cael eu gwerthfawrogi am eu natur agored a'u hapêl gwylt. Mae'r ddaeareg yn adrodd hanes newid hinsawdd hynafol, adeiladu mynyddoedd a newidiadau yn lefel y môr. Mae'r dirwedd fodern yn gynnwys y rhyngweithio rhwng gweithgaredd dynol a thopograffeg a luniwyd gan rewlifoedd yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf.

## Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Nodweddir Geoparc y Fforest Fawr gan y cysylltiad cryf rhwng ei ddaeareg, ei natur a threftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol Cymru.

Mae natur y priddoedd sy'n deillio o'r dilyniant gwaelodol o 470 miliwn o flynyddoedd o strata morol a daearol yn cael ei adlewyrchu yn natur eithriadol fflora a ffawna'r geoparc.

Mae carsteiddio o'r Calchfaen Carbonifferaidd wedi arwain at rai o systemau ogofâu hiraf a dyfnaf y DU a chaeu dolin helaeth. Rhwng 28,000 ac 11,700 o flynyddoedd yn ôl, creodd cerflunio'r ardal gan iâ y dirwedd lle mae amgylcheddau ucheldir ac iseldir bellach yn adlewyrchu hanes gweithgarwch dynol.

Daw diwylliant cyfoethog trigolion cynnar yr ardal yn fyw mewn mythau a chwedlau sy'n gysylltiedig â nodweddion yn y dirwedd. Mae Culhwch ac Olwen neu'r Twrch Trwyth, y cofnod cyntaf o Rhamant Arthuraidd, yn gysylltiedig ag Afon Twrch. Mae cylchoedd cerrig, bryngaerau, safleoedd Rhufeinig, cestyll canoloesol ac eglwysi hynafol yn etifeddiaeth gyfoethog o fywydau hynafol.


Mae chwareli wedi'u hindreulio a gordyfu, gweithfeydd brics, odynau calch ac elfennau o system drafnidiaeth yn weddillion ymelwa ar ddaeareg yr ardal mewn oes ddiwydiannol. Maent bellach yn rhan annatod o dirwedd hardd a dramatig y Geoparc.





## Global Geoparks

### Fforest Fawr

Siroedd: Powys,  
Sir Gaerfyrddin,  
Rhondda Cynon Taf,  
Merthyr Tudful



 [fforestfawrgeopark.org.uk](http://fforestfawrgeopark.org.uk)  
[geoparcyfforestfawr.org.uk](http://geoparcyfforestfawr.org.uk)  
 [enquiries@fforestfawrgeopark.org.uk](mailto:enquiries@fforestfawrgeopark.org.uk)

Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

